



YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 55
MAI 2013

Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 12-18 2013

Mae'n siwr bod y rhan fwyaf ohonom yn berchen ar ffôn symudol sydd yn gyfrwng cyfleus i gyfathrebu naill ai drwy siarad yn uniongyrchol â pherson arall neu drwy anfon neges destun. Ond wyddoch chi, yng ngwlad Kenya mae'r ffôn symudol yn chwarae rhan bwysig iawn yn cynorthwyo'r ffermwyr i dyfu digon o fwyd i bawb. Dyma'r hanes yn ôl Cymorth Cristnogol:

Roedd bwydo'r teulu yn dipyn o ymdrech i Justin a Truphena Ireri, ffermwyr yn Kenya. 'Pan mae'r glaw yn anwadal, nid oeddem yn cael digon i'r teulu fwyta, heb sôn am ddigon i'w werthu' meddai Truphena.

Ond diolch i ddefnydd o dechnoleg newydd a'u ffonau symudol, mae pethau'n dechrau newid i ffermwyr ardal Mbeere yn rhanbarth Dwyreiniol Kenya. 'Mae'r dulliau traddodiadol o ragfynegi'r tywydd yn methu oherwydd newid hinsawdd. Pan drown at ddulliau gwyddonol, gall ffermwyr gynllunio ymlaen tipyn gwell,' eglura Truphena.

Chwyldrowyd dulliau ffermio yn yr ardal gan ragolygon tywydd syml ond penodol yn cael eu hanfon at y ffermwyr mewn neges destun. O'r blaen, roedd ffermwyr yn ansicr sut i gynllunio ar gyfer patrymau tywydd a oedd yn mynd yn fwy a mwy anwadal, a chanlyniad hyn i sawl teulu oedd gweld crydau'n methu, siom a newyn.

Roedd y rhagolygon tywydd oedd ar gael wedi eu hanelu at y dinasoedd mawr, lle mae'r hinsawdd yn aml yn wahanol iawn. A beth bynnag, gan fod y mwyafrif o ffermwyr yn yr ardaloedd gwledig heb deledu, ni allant hyd yn oed weld y rhagolygon hynny.

Trwy weithio gyda chymdeithas meteoroleg Kenya, mae partner Cymorth Cristnogol, *Christian Community Services Mount Kenya East (CCSMKE)*, yn cymryd rhagolygon gwyddonol, penodol ar gyfer yr ardaloedd gwledig ac yn eu cyfieithu i iaith syml sy'n ddealladwy i'r ffermwyr.

Maent yn anfon y wybodaeth allan mewn neges destun, ynghyd â diweddariadau misol a thymhorol, a chyngor ar ddefnyddio crydau a dulliau amaethu amrywiol er mwyn addasu i'r newidiadau yn y patrymau tywydd.

Mae'r defnydd blaengar hwn o dechnoleg yn golygu fod CCSMKE'n gallu gweithio gyda miloedd o ffermwyr, y byddai wedi bod yn anodd a chostus i'w cyrraedd wrth deithio'r ffyrdd. Mae gan fwy na 80 y cant o ffermwyr yr ardal ffôn symudol syml, ac maen nhw'n gallu ymateb i'r negeseuon testun drwy ofyn cwestiynau pellach am eu sefyllfa hwy, a derbyn cyngor gan staff CCSMKE dros y ffôn.

Mae hyn i gyd yn ganlyniad gweithdai ffermio cychwynnol a gynhaliwyd gan CCSMKE gyda chynulleidfaoedd eglwysig, gan roi'r cyfle i CCSMKE ennill ymddiriedaeth y gymuned trwy ddangos dealltwriaeth o'r hyn mae'n golygu i ffermio mewn amgylchedd anodd. Mae'r defnydd yma o dechnoleg newydd yn rhoi gobaith i'r teulu Ireri ar gyfer y dyfodol: 'Pan welwn gynllun yn cael ei gwreiddu, mae'n rhoi llawenydd i ni, gallwn wyllo ein plant yn tyfu a hefyd gweld ein gwallt ein hunain yn britho – mae britho yn arwydd o ddoethineb!' meddai Truphena.

Diolchwn am y defnydd yma o dechnoleg yng ngwlad Kenya a dymunwn fendith yr Arglwydd ar holl weithgaredd Cymorth Cristnogol eleni eto.

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW

Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: berwynfa@btinternet.com.

CALENDR MIS MAI 2013

Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds	Organydd y Mis: Mair Evans	
5 Mai 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Eirian a Wendy
12 Mai 10.00yb a 5.30yp	Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion Capel y Morfa, Aberystwyth Arweinydd: Margaret Daniel	
19 Mai 10.00yb ym Methel Sul y Pentecost	Oedfa Bregeth: Gweinidog DS: Bydd Horeb yn ymuno â Bethel i ddatlu'r Pentecost.	
26 Mai 10.30yb	Oedfa Bregeth: Gweinidog	
2 Mehefin 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mairwen

I'ch Dyddiadur

- 7 Mai: Cyfarfod Diaconiaid Horeb am 7yh
- 8 Mai: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.
- 8 Mai: Rihyrsal y Gymanfa Ganu, Capel y Morfa 7.00yh
- 12-18 Mai: Wythnos Cymorth Cristnogol
- 13 Mai: Cinio Cymorth Cristnogol Bara Caws yng Nghanolfan San Paul 12.15-1.30yp.
- 14 Mai: Cylch Darllen y Beibl yn Festri Horeb 7.30yh: Datguddiad Penodau 4 a 5
- 15 Mai: Cymdeithas Bethel yng nghwmni y Parchedig Ddr Terry Edwards am 2.30yp
- 18 Mai: Ysgol Undydd Cymdeithas Emynau Cymru yn Festri Bethel 10.30yb-4.30yp
- 21-22 Mai: Cyfarfodydd Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ym Mhen-parc, Aberteifi
- 22 Mai: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
- 25 Mai: Oedfa Goffa Mrs Marian Henry Jones ym Methel am 2yp
- 9 Mehefin: Pererindod Bethel a Horeb i Benfforddilas. Bydd y bws yn gadael Penrhyn-coch tua 1.00yp. Enwau i Ceris os gwelwch yn dda.
- 10 Mehefin: Encil ym Mhennant Melangell
- 12 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
- 12-13 Mehefin: Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn y Llwyfan, Caerfyrddin
- 15 Mehefin: Taith Cymdeithas y Penrhyn i Dreffynnon a'r ardal Enwau i Ceris
- 22 Medi 2013: Oedfa Menter Gobaith yng Ngharmel, Llanilar am 10.00yb. Croeso cynnes i bawb.

Lloffion

Dymuniadau Gorau i Mrs Mairwen Jones a fydd yn cael ei hurddo'n Llywydd Senana Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yng Nghyfarfodydd y Gymanfa ym Mhen-parc.

Wythnos Cymorth Cristnogol 12-18 Mai 2013: Os ydych yn barod i gynorthwyo gyda'r gwaith o gasglu cyfraniadau o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos bwysig hon, rhwoch wybod i Ceris os gwelwch yn dda.

Oedfa yn Nhregerddan ar y 9fed o Fehefin: A oes yna rywrai a fyddai'n barod i arwain yr oedfa yn Nhregerddan ar y 9fed Mehefin? Mae'r dyddiad yn cyd-daro â'r bererindod i Benfforddilas. Os ydych mewn ffordd i gynorthwyo, dewch i gysylltiad â mi yn ddi-oed.

Cymanfa Ganu: Mae copïau ar gael o Raglen Cymanfa Ganu 2012/3 gan Ceris; pris £1.35

Diwrnod o Encil ym Mhennant Melangell: Cynhelir yr encil yng Nghanolfan Pennant Melangell ar ddydd Llun, 10fed Mehefin. Dyma fydd trefn y diwrnod yn fras: 9.00yb: Gadael Penrhyn-coch; 10.30yb: Cyrraedd a Choffi; 11.00yb: Myfyrdod Gweddïgar 1; 12.00yp Gwasanaeth yn yr Eglwys a chyfle i edrych o gwmpas a Chinio 2.00 Myfyrdod Gweddïgar 2; 3.00yp Te a Chacen cyn ymadael. Rhwch wybod i'r Gweinidog os hoffech ymuno â ni. Cost y diwrnod fydd £10. Bydd angen mynd â phegyn bwyd.